**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/55002/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

20 Ionawr 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu wedi Brexit. Rwyf wedi nodi fy atebion i'ch cwestiynau isod.

1. **Allwch chi roi rhagor o fanylion inni ar y cytundeb gyda Llywodraeth y DU I gael cyfres gyffredin o egwyddorion amgylcheddol?**

Roeddwn wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i roi gwybodaeth fwy manwl, fodd bynnag, o ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol, ni aethpwyd ymlaen â Bil Amgylchedd y DU ym mis Tachwedd y llynedd, ac rydym yn aros iddo gael ei gyflwyno eto. Mae'r trafodaethau wedi parhau yn y cyfamser ar gytuno ar gyfres gyson o egwyddorion amgylcheddol, yn hytrach na chyfres gyffredin sy'n berthnasol ledled Prydain. Byddwn yn parhau i edrych ar hyn gyda'r bedair weinyddiaeth. Rwy'n gobeithio bod mewn sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth yn ystod taith Bil y DU wedi iddo gael ei gyflwyn i'r Senedd unwaith eto.

2. **Allwch chi gadarnhau a ydych wedi rhoi'r gorau i ystyried sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ledled y DU?**

   Fel y dywedais yn y gorffennol, rwyf wedi bod yn barod i drafod sut y gellid sicrhau dull o lywodraethu amgylcheddol ledled y DU. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw ddull o'r fath, yn y bôn, barchu y setliad datganoli a'n fframwaith deddfwriaethol ein hunain. Hefyd, dim ond un parti yw Cymru yn y trafodaethau hyn, ac roedd y cynnig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ei Fil a gyflwynwyd yn Hydref 2019, wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau fel y maent yn berthnasol i Loegr yn unig, ac oherwydd hynny, ni fyddai yn gorff llywodraethu ledled y DU. Oherwydd hynny, ni allwn gytuno i Swyddfa Gwarchod yr Amgylchedd weithredu fel corff ledled y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd achosion pan fydd angen neu'n ddymunol i Swyddfa Gwarchod yr Amgylchedd gydweithredu gydag unrhyw ddulliau o lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r trafodaethau'n parhau ar draws y gweinyddiaethau i nodi cyfleoedd a dulliau o gydweithio. Ceisiodd Bil y DU a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019 gydnabod hyn drwy ei ddarpariaethau ar ymgynghori a rhannu gwyobdaeth.

Fel y dywedwyd gennyf erioed, rydym angen ymateb yng Nghymru sy'n ategu ein deddfwriaeth bresennol a'n trefniadau llywodraethu.

3. **Allwch chi egluro sut y mae gofynion adrodd yr UE wedi'u haddasu, yn benodol, pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i sicrhau bod trefniadau domestig priodol ar gyfer adrodd ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol sydd wedi deillio o'r UE.**

Yn y rhaglen ddeddfwriaethol sy'n cywiro sefyllfa dim cytundeb, y nod oedd cadw y sefyllfa bresennol, ac roedd hyn yn cynnwys gofynion adrodd o fewn deddfwriaeth amgylcheddol oedd yn deillio o'r UE. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, ble yr oedd gofynion cofnodi oedd yn gysylltiedig â rhwymedigaethau adrodd rhyngwladol, er enghraifft mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynefinoedd, byddai'r DU yn adrodd i Gomisiwn yr UE, a fyddai yn eu tro yn adrodd i'r confensiwn rhyngwladol perthnasol. O dan y rhaglen o gywiro deddfwriaeth, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i haddasu i newid wedi ymadael, i wneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r confensiwn rhyngwladol gan bod y DU yn barti i'r Confensiwn.

Cafodd y gofynion adrodd eraill, sydd heb eu cysylltu â rhwymedigaethau adrodd rhyngwladol, eu cywiro yn fwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth fel dyletswydd i gyhoeddi adroddiad.

Byddwn, fodd bynnag, am ystyried effeithiolrwydd gofynion cofnodi o fewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE, o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o fewn strwythurau llywodraethu amgylcheddol domestig. Fel a nodwyd yn y gorffennol, byddwn yn ceisio gwneud y gwaith hwn gyda phob parti perthnasol, yn benodol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd gofynion adrodd i'r UE yn parhau.

4. **Allwch chi roi rhagor o fanylion ar eich dull o reoli cwynion os digwydd i'r DU ymadael heb gytundeb?**

Gyda chyfnod pontio bellach yn debygol o ddechrau ddiwedd Ionawr, pan fydd mecanwaith bresennol yr UE yn parhau i fod yn berthnasol, ni fydd angen mesurau brys dros dro. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ystyried hyn pe byddai angen ar ddiwedd unrhyw gyfnod pontio.

Mae fy sylw bellach yn troi at egluro a chwblhau'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol ar gyfer Cymru wedi Brexit, sydd wedi golygu trafodaethau manwl gyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r Tasglu Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol wedi parhau i drafod gyda'm swyddogion i greu argymhellion ar gyfer Cymru. Rwy'n aros am yr adroddiad yn cynnwys eu hargymhellion, fydd yn barod ddiwedd y mis, a byddaf yn hapus i roi'r newyddion i'r Pwyllgor unwaith y byddaf wedi ystyried eu hargymhellion.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs